OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 461 (Cy.48)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*2 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 9 iddi ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2009.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 7 (taliadau o dan hysbysiadau galw am dalu: darpariaeth bellach) mewnosoder —

"**Backdated liability: special provision in relation to 2005 rating lists**

7A. Notwithstanding the requirements of a demand notice issued in accordance with regulation 7, a ratepayer and a billing authority may reach an agreement in accordance with Schedule 1A.".

(3) Ar ôl Atodlen 1, mewnosoder Atodlen 1A a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41. Mae paragraff 1 o Atodlen 9 wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p.15).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S.1989/1058, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2009